

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

CYLCHLYTHYR YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

YR HYDREF 2009

RHIF 40

Darlith yr Arglwydd Elystan-Morgan

Ymweliad Gan Ysgrifennydd
Gwladol Cymru

John Watts-Williams (1947-2008)

Syr Deian Rhys Hopkin

Pwyllgor Ymgynghorol

Gwyn Jenkins

Roy Hattersley yn Ymchwilio yn
y Llyfrgell Genedlaethol

Cyfweliad Mike German

Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru

Papurau Elfyn Llwyd

Bro a Bywyd Gwynfor Evans

Darlithio yn Llanystumdwy

Ffotograffau o Lloyd George

Dyddiadur W. Llewelyn Williams

Papurau John Morris

Derbyniadau Eraill

Darlith yr Arglwydd Elystan-Morgan

Yn unol â'r disgwyl, ymgasglodd cynulleidfa niferus yn y DRWM, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar nos Wener, 7 Tachwedd 2008 i glywed yr Arglwydd Elystan-Morgan yn cyflwyno atgofion hynod o ddiddorol yn yr iaith Gymraeg am ei yrfa wleidyddol hir ac unigryw. Ei ddarlith oedd yr ail-ar-hugain i'w thraddodi dan nawdd yr Archif Wleidyddol Gymreig.

Mae Elystan Morgan yn frodor o Landre, ac addysgwyd ef yn Ysgol Ardwyn a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, daeth yn gyfreithiwr ym 1956 ac yn fargyfreithiwr ym 1971. Pan oedd yn ŵr ifanc, roedd yn flaenllaw o fewn cylchoedd mewnol Plaid Cymru, daeth yn gyfaill agos i Gwynfor Evans, a safodd fel ymgeisydd seneddol y blaid yn Wrecsam ar dri achlysur rhwng 1955 a 1959 ac ym Meirionydd ym 1964. Ar y pryd ystyrir ef yn llywydd posibl ar gyfer y blaid yn y dyfodol.

Ym 1965, yn dilyn cyfnod hir o bwysu a mesur dwys, penderfynodd ymuno â'r Blaid Lafur, ac yn etholiad cyffredinol 1966 cipiodd etholaeth Ceredigion oddi wrth Roderic Bowen, yr AS Rhyddfrydol yno ers 1945. Yn groes i'r disgwyl, cynyddodd ei fwyafrif yno yn etholiad cyffredinol Mehefin 1970. Anrhydeddus oedd ei berfformiad fel gweinidog iau o fewn y Swyddfa Gartref dan Harold Wilson o 1968 tan 1970. Cafodd ei orchfygu, fodd bynnag, gan y Rhyddfrydwr Geraint Howells yn etholiad Chwefror 1974, a methu eto oedd ei hanes pan geisiodd ennill Ynys Môn ar ran y Blaid Lafur, fel olynydd i Cledwyn Hughes, yn etholiad cyffredinol 1979.

Chwaraeodd Elystan Morgan ran flaenllaw drwy gydol ymgyrch pleidlais datganoli 1979, ac aeth i Dŷ'r Arglwyddi ym 1981. Fel cyn farnwr, mae'n eistedd yno bellach fel croesfeinciwr. Yn ddiweddarach, bu hefyd yn Llywydd Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a

daliodd nifer o swyddi cyhoeddus eraill. Mae grŵp bychan o bapurau a gohebiaeth wleidyddol Elystan Morgan eisoes yng ngofal y Llyfrgell Genedlaethol.

Mewn darlith a draddododd yn arbennig o wych, bu'r Arglwydd Elystan-Morgan yn rhannu atgofion am ei gefndir teuluol a'i brofiadau gwleidyddol cynharaf pan oedd yn fachgen ysgol ac fel myfyriwr yn Aberystwyth. Cyflwynodd llawer iawn o wybodaeth ddiddorol ynghylch ei brofiadau ym Mhlaid Cymru, y Blaid Lafur a Thŷ'r Arglwyddi. Adroddodd nifer o straeon difyr a doniol dros ben am ei gyfoedion gwleidyddol a rhai o'r mesurau seneddol y bu'n gyfrifol amdanynt tra yn y Swyddfa Gartref.

Mae testun y ddarlith ar gael ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol yn yr adran ar yr Archif Wleidyddol, sef

http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/darlith_archif_wleidyddol_2008.pdf.



Arglwydd Elystan-Morgan

Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig 2009

'Deng Mlynedd o Ddatganoli: Myfyrododau gan Brif Weinidog' Mr Rhodri Morgan Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Gwener, 6 Tachwedd 2009, 5.30 p.m.



Ymweliad Gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ar fore Mercher, 22 Gorffennaf 2009, bu'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol am y tro cyntaf. Ac yntau'n cynrychioli Castell-nedd yn y Senedd, cafodd ei ail-benodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n ddiweddar. Cyflwynodd archif sylweddol iawn o'i bapurau gwleidyddol i'r Llyfrgell yn 2008 [gw. Cylchlythyr, rhif 39 (Hydref 2008)], ac ychwanegodd bapurau pellach ar ôl hynny. Yn ystod ei ymweliad cafodd gyfle i'w gweld, wedi eu bocsiu mewn blychau archifol a'u lleoli mewn storffeydd pwrpasol. Gwnaethpwyd argraff ffafriol iawn arno gan yr adnoddau a'r cyfeusterau oedd ar gael yn y Llyfrgell.

Cafodd gyfle hefyd i weld nifer o archifau gwleidyddol eraill oedd o ddi-ddordeb neilltuol

iddo, yn eu plith cofnodion Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru a ddaeth i law'n weddol ddiweddar.

Ynghyd â thri chynrychiolydd y Blaid Lafur o etholaeth Castell-nedd, cafodd Mr Hain daith o amgylch yr adeilad a'i gyfeusterau, a chawsant ginio yn Ystafell y Llywydd. Roedd hefyd modd iddynt weld Ystafell Ddarllen y Gogledd ar ei newydd wedd ychydig ddyddiau cyn ei hagor i aelodau'r cyhoedd ar 27 Gorffennaf. Cawsant sgwrs gyda Llyfrgellydd LIGC, Mr Andrew Green, ac aelodau eraill o'r staff, a chyfle i drafod nifer o bynciau o ddi-ddordeb i LIGC, yn eu plith Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000, a Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003.



Gwir Anrh. Peter Hain

John Watts-Williams (1947-2008)

Gyda'r gofid mwyaf mae'n rhaid cofnodi marwolaeth John Watts-Williams, ar 10 Rhagfyr 2008, ac yntau ond yn 61 oed. Bu John yn aelod o staff y Llyfrgell o 1972 tan iddo benderfynu cymryd ymddeoliad cynnar ym mis Mawrth 2005. Roedd yn frodor o Solfa, sir Benfro, a graddiodd mewn hanes o Goleg Sant Ioan, Rhydychen.

Bu John yn gysylltiedig â nifer o wahanol agweddau amrywiol ar waith y Llyfrgell. Nid y lleiaf o'i gyfraniadau oedd cyd-olygu'r gyfrol arloesol Cofrestrï Plwyf Cymru (1986 a 2000), astudiaeth a fu o gymorth aruthrol i achyddwyr a haneswyr teulu fel ei gilydd. Hefyd rhestrodd nifer o archifau gwleidyddol pwysig sydd yng ngofal y Llyfrgell, yn eu plith Papurau John Bryn Roberts, papurau helaeth E. T. John (a restrwyd mewn pedair

cyfrol swmpus), ac Archifau TUC Cymru. John hefyd a fu'n gyfrifol am gyd-lynu'n hynod effeithiol gweithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig o 1992 tan 2002.



John Watts-Williams

Gwyn Jenkins

Ar ddiwedd Gorffennaf 2009 ymddeolodd Gwyn Jenkins o wasanaeth y Llyfrgell Genedlaethol ar ôl trideg pump o flynyddoedd o wasanaeth ymroddedig. Mae Gwyn yn frodor o Benparcau, Aberystwyth, ac enillodd radd mewn hanes o Goleg y Prifysgol, Abertawe ym 1970. Yna graddiodd yn MA o Brifysgol McMaster, Ontario. Ymunodd â staff y Llyfrgell yng Ngorffennaf 1974 fel archifydd yn yr hen Adran Llawysgrifau a Chofysgrifau.

Ar ôl sicrhau dyrchafiad i raddfa ceidwad cynorthwyol ym 1982, ef oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell yn ystod y gwanwyn canlynol ac am lywio ei gweithgareddau dros y naw mlynedd nesaf. Ym 1992 Gwyn a benodwyd i olynu Mr Daniel Huws fel Ceidwad y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau, ac yn dilyn ad-drefnu pellgyrhaeddol mewnol ddechrau 2002, ef oedd y person cyntaf i ddal swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau. Roedd rhychwant eang iawn o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn perthyn i'r swyddi hyn. Gwyn hefyd oedd golygydd cyffredinol y gyfrol nodedig Llyfr y Ganrif (1999) ac awdur y cofiant ysblennydd i Dr Huw T. Edwards, yr arweinydd undeb lafur Cymreig (1892-1970) (2007).

Mae pawb sydd yn gysylltiedig â'r AWG yn dymuno i Gwyn ymddeoliad hir, hapus a chynhyrchiol.



Gwyn Jenkins

Cyfweliad Mike German

Mae Dr Russell Deacon, aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, yn garedig wedi cyflwyno i ofal y Llyfrgell crynoddsg yn cynnwys cyfweliad awr o hyd, a recordiwyd ar 12 Hydref 2008, gyda Mr Mike German, arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. Gyda'r teitl Mike German: a Life in Welsh Liberal Democrat Politics, cafodd ei recordio yn ystod cynhadledd hydref y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig yng Nghlydach, Abertawe. Mae Mr German yn myfyrio ar ei brofiadau ym mywyd gwleidyddol Cymru dros gyfnod o ddeugain mlynedd ac yn trafod y camau a arweiniodd at sefydlu llywodraeth glymbleidiol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol rhwng 2000 a 2003. Rhoddwyd y crynoddsg yng ngofal Casgliad Sain a Delweddau Symudol y Llyfrgell.

Syr Deian Rhys Hopkin

Testun llawenydd i bawb sydd yn gysylltiedig â'r AWG oedd y newyddion i'r Athro Deian Hopkin gael ei urddo'n farchog yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines ym Mehefin 2009 - yn dilyn ei ymddeoliad fel Prifathro Prifysgol Southbank, Llundain, ym mis Mawrth.

Bu Deian yn gynghorydd ysbrydoledig ac ymroddedig i'r AWG ers ei sefydlu ym 1983, gan gynorthwyo i sicrhau cyflwyno nifer o gasgliadau archifol. Bu hefyd yn eistedd ar bwyllgor ymgynghorol yr AWG byth ers ei sefydlu ym 1985, gan gyfrannu'n gyfoethog at y trafodaethau.

Roy Hattersley yn Ymchwilio yn y Llyfrgell Genedlaethol

Ymhlith y darllenwyr yn Ystafell Ddarllen y De yn y Llyfrgell am wythnos ar ei hyd ym mis Ionawr 2009 roedd yr Arglwydd Hattersley, dirprwy arweinydd y Blaid Lafur o dan Neil Kinnock o 1983 tan 1992. Mae bellach yn 76 oed. Er ei fod yn awdur a chofiannydd cynhyrchiol iawn, nid oedd Barwn Hattersley erioed wedi ymchwilio yn y Llyfrgell o'r blaen.

Enillodd Roy Hattersley gryn enw fel hanesydd cynhyrchiol â diddordebau hanesyddol eang. Ymhlith ei gyhoeddiadau niferus mae bywgraffiadau uchel eu parch o John Wesley a William a Catherine Booth, a'r hunangofiannau A Yorkshire Boyhood (1983) a Who Goes Home?: Scenes from a Political Life (1995). Cyhoeddodd hefyd gyfrolau hanes cyffredinol ar yr Edwardiaid a'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, a lluniodd nifer o golofnau gwleidyddol ar gyfer cylchgronau a phapurau newydd.

Ei brosiect ar hyn o bryd yw cofiant un gyfrol i David Lloyd George, yr astudiaeth gyntaf o'i bath i ymddangos ers y cofiant anferth gan Peter Rowland a welodd olau dydd ym 1975. Ym marn yr Arglwydd Hattersley, edmygydd mawr o Lloyd George mae'n amlwg, mae record Lloyd George fel Canghellor y Trysorlys yn ei nodweddu fel y radical mwyaf erioed yn hanes gwleidyddol Prydain. Cyn ei ymweliad a'r Llyfrgell, gwnaeth yr Arglwydd Hattersley ddefnydd helaeth o lythyrau Lloyd George at ei frawd iau William, sydd wedi eu digido ac ar gael ar wefan LIGC.

Wrth ymchwilio'n y Llyfrgell, gwnaeth Roy Hattersley ddefnydd da o'r grwpiau niferus o bapurau a gohebiaeth Lloyd George a

gwnaeth rhai 'darganfyddiadau' nodedig a'i anogodd i ddilyn sawl trywydd newydd yn ei ymchwil. Arbennig o ddi-ddorol iddo oedd y nodiadau niferus a luniodd Lloyd George ar gyfer ei areithiau gwleidyddol. Gwnaethpwyd argraff ffafriol dros ben arno gan yr adnoddau sydd ar gael yn y Llyfrgell ac ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd. Efallai y bydd yn dychwelyd yma eto yn y dyfodol agos wrth gwblhau ei waith ymchwil ar Lloyd George.

Gobaith Arglwydd Hattersley yw y bydd yn gorffen llunio testun ei gofiant yn gynnar yn 2010, a dylai'r gyfrol weld golau dydd rhyw flwyddyn ar ôl hynny. Yn ddi-os bydd yn gyfraniad nodedig iawn a cheir croeso mawr a darlleniad eang.



Roy Hattersley

Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru

Drwy haelioni Mr Hanif Bhamjee, y Rhath, Caerdydd, derbyniwyd archif sylweddol iawn o gofnodion Mudiad Gwrth-Aparteid Cymru. Ceir ffeiliau gohebiaeth, dyddiaduron desg, dogfennau a phapurau gweinyddol, torion papur newydd, ynghyd â chyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd. Ceir hefyd ddeunydd yn deillio o weithgareddau pwyllgorau lleol y mudiad a nifer o garfannau lleol gwrth-aparteid.

Mae'n cynnwys llawer o gyhoeddiadau prin cyrff megis the African National Congress, yr UN Centre Against Apartheid a'r International Defence and Aid Fund. Mae llawer iawn o'r deunydd yn ymdrin â De Affrica, Rhodesia a Zimbabwe.

Papurau Elfyn Llwyd

Roedd y Llyfrgell yn falch i dderbyn grŵp bychan o bapurau gwleidyddol Elfyn Llwyd, AS Plaid Cymru dros etholaeth Meirionnydd Nant Conwy ers 1992. Mr Llwyd hefyd yw arweinydd grŵp Plaid Cymru o fewn y Senedd. Ceir yn eu plith ffeiliau pwnc a phapurau a gohebiaeth yn ymdrin â mesurau a deddfau'r senedd. Ceir hefyd ddeunydd yn deillio o'r Pwyllgor Materion Cymreig a Sefydliad San Steffan ar gyfer Democratiaeth. Y gobaith yw yr ychwanegir papurau pellach yn y dyfodol.

Bro a Bywyd Gwynfor Evans

Am y tro cyntaf mae'r gyfres adnabyddus 'Bro a Bywyd' wedi cyhoeddi cyfrol ar fywyd gwleidydd Cymreig. Golygydd y gyfrol arbennig hon yw Peter Hughes Griffiths, asiant lleol Plaid Cymru yn Sir Gaerfyrddin am flynyddoedd lawer a chyfaill mynwesol i Gwynfor Evans.

Ceir o fewn y llyfr cydbwysedd da o ffotograffau o ddi-gwyddiadau gwleidyddol a rhai a dynnwyd adeg achlysuron teuluol, gan gynnwys nifer o'r saith plentyn a anwyd i Gwynfor a Rhiannon Evans. Cynhwysir enghreifftiau o waith nifer o wahanol ffotograffwyr. Yn ddi-ddorol, rhannwyd y gyfrol yn ddeuddeg adran, pob un ar gyfer thema neu bwnc arbennig

Pwyllgor Ymgynghorol

Cyfarfu aelodau o bwyllgor ymgynghorol yr AWG yn y Llyfrgell ar brynhawn Gwener, 7 Tachwedd 2008.

Yn dilyn trafodaeth o'r 'rhestr darged', addawodd yr aelodau i geisio sicrhau'r archifau canlynol: Yr Arglwydd Anderson o Abertawe, Denzil Davies, Yr Arglwydd Prys-Davies, Ness Edwards, Dr Glyn Tegai Hughes, Yr Arglwydd Livesey, Alun Michael, Paul Murphy, y Barnwr Dewi Watkin Powell, y Barnwr Winston Roddick, Yr Arglwydd Thomas o Gresford, a'r Arglwydd Thomas o Wydir.



Derbyniadau Eraill


Ymhlith y derbyniadau eraill a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- **Prynodd y Llyfrgell lun olew nodedig o'r gweinidog cabinet Llafur **Aneurin Bevan** (1897-1960) o waith Arthur Hothen o'r Ysgol Saesneg.**
- **Etholiad Ewro 2009:** grŵp sylweddol o faniffestos, llenyddiaeth y pleidiau, anerchiadau etholiad a thafleini a gylchredwyd yng Nghymru adeg ymgyrch Etholiad Ewro Mehefin 2009. Ychwanegwyd hwy at y Casgliad Effemera Gwleidyddol. Edrychwn ymlaen i dderbyn deunydd tebyg oddi wrth y Blaid Lafur yng Nghymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.
- **John Davies:** papurau pellach yn tarddu o yrfa wleidyddol gynnar brawd y rhoddwr Mr Ron Davies. Ceir hefyd papurau gwleidyddol a gasglwyd ynghyd gan y rhoddwr ei hun, yn eu plith llythyrau gan Neil Kinnock AS a George Thomas AS.
- **Mrs Greta George, Criccieth:** grŵp ychwanegol o bapurau ei diweddar ŵr Dr W. R. P. George (1912-2006), yn adlewyrchu ei yrfa nodedig fel ffigwr llenyddol a chyhoeddus.
- **Robert Griffiths:** cofnodion, 1950-56, yn deillio o ymgyrch wydn Senedd i Gymru a'i gweithgareddau.
- **Peter Hain AS:** papurau ychwanegol yn adlewyrchu ei yrfa wleidyddol fel AS a gweinidog cabined Llafur.
- **Tegwyn Jones:** gohebiaeth a phapurau, 1969-71, yn ymddrin â gweithgareddau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a chyhoeddi Tafod y Ddraig.
- **Sonia Parry-Jones:** grŵp bychan o bapurau a ffotograffau yn ymddrin â Kathleen Smith, yr awdur, dramodydd a'r ffermwr mynydd a safodd fel yr ymgeisydd Ceidwadol yn etholaeth Sir Gaernarfon yn etholiad cyffredinol Mehefin 1970.
- **Dewi Rhys, Pwllheli:** grŵp o bamffledi a thafleini diddorol yn ymddrin â phynciau gwleidyddol, yn bennaf â Phlaid Cymru a mudiadau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Y rhoddwr yw mab Mr J. E. Jones (1905-70), ysgrifennydd cyffredinol Plaid Cymru o 1930 tan 1962.
- **Parch Dr John Tudno Williams:** grŵp ychwanegol o bapurau Syr David Hughes-Parry (1893-1973), yn adlewyrchu ei yrfa nodedig fel gweinyddwr a gwas cyhoeddus.
- **Plaid Cymru:** grŵp sylweddol o gofnodion y blaid, yn bennaf yn dyddio o'r cyfnod ar ôl 1990, ond hefyd yn cynnwys rhai o gyhoeddiadau cynharaf y Blaid a rhifynnau o'i phapurau newyddion. Ceir yn eu plith llyfrau cofnodion, papurau'r pwyllgor gwaith a'r pwyllgor cenedlaethol gweithredol, cyhoeddiadau'r blaid, deunydd etholiadol, dogfennau'r cynadleddau, a phapurau cyllidol.

Ffotograffau o Lloyd George

Drwy garedigrwydd Yr Athro Prys Morgan, Abertawe, cyflwynodd Yr Athro Michael Kinnear, Prifysgol Manitoba, Winnipeg, grŵp bychan o luniau o Lloyd George a dynnwyd canol y 1930au. Yn wreiddiol roeddent yn rhan o gasgliad Marcwis Cholmondeley. Tynnwyd rhai ohonynt o leiaf yn ystod parti yn Houghton, swydd Norfolk ym mis Awst 1936. Ceir yn eu plith lluniau diddorol o'r Cadfridogion Ffrengig Ferdinand Foch a Joseph Joffre a arweiniodd y fyddin Ffrengig yn ystod y Ryfel Byd Cyntaf. Ceir hefyd lun o Lloyd George a Sybil Cholmondeley ger teml urddasol.

Cyflwynodd Dr Arthur Lindley bedwar ffotograff deniadol o Lloyd George o'r 1930au, lluniau a dynnwyd ger ei gartref Bron-y-de, Churt, swydd Surrey.



Lloyd George

Darlithio yn Llanystumdwy

Ar 20 Chwefror 2009 traddododd Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, ail ddarlith i Gyfeillion Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Mr Emrys Williams, y cyn guradur, oedd yn y gadair.

Edrychodd Dr Jones ar y cefndir i benderfyniad hynod ddadleuol Lloyd George i dderbyn iarllaeth etifeddol yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 1945. Esboniodd ei resymau dros wneud hyn a dadansoddodd yr adwaith amrywiol yng Nghymru a thu hwnt i'r newyddion syfrdanol. Aeth ymlaen wedyn i drafod y broses o ddewis ymgeisydd newydd Rhyddfrydol dros Fwrdeistrefi Caernarfon i olynu Lloyd George, a soniodd yn gryno am gwrs ymgyrch is-etholiad Ebrill 1945 yno.

Cyhoeddwyd fersiwn o'r ddarlith yn rhifyn Mehefin 2008 o Gylchgrawn Hanes Cymru.

Dyddiadur W. Llewelyn Williams

Yn rhifyn cyntaf Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel e-gylchgrawn, cyhoeddodd Dr J. Graham Jones destun cyflawn, ynghyd â nodiadau esboniadol a rhagymadrodd, o'r dyddiadur manwl a gadwodd W. Llewelyn Williams AS ar adegau anghyson rhwng 1908 a 1915.

Mae cofnodion dyddiadur Williams yn llawn ac yn graff, ac yn goleuo cwrs bywyd gwleidyddol Prydain yn ystod cyfnod o lywodraethau Rhyddfrydol. Ceir ynddynt nifer fawr o gyfeiriadau at weithgareddau a safbwyntiau David Lloyd George a gwleidyddion Rhyddfrydol eraill. Gellir ei ddarllen ar safle we LIGC.

Papurau John Morris

Ar 20 Chwefror 2009 bu'r Arglwydd Morris o Aberafan yn ymweld â'r Llyfrgell er mwyn bwrw golwg dros rai o'i bapurau sydd eisoes yn ei meddiant ac i ychwanegu papurau pellach at yr archif. Ceir o fewn y grŵp diweddaraf ffeiliau diddorol o ohebiaeth, yn bennaf o ddiddordeb gwleidyddol, o'r blynyddoedd 1988-89 a 1992. Ceir hefyd papurau'n ymddrin â'i ddewis gwreiddiol fel yr ymgeisydd Llafur ar gyfer etholaeth Aberafan ym 1958 pan orchfygodd Llewelyn Heycock o drwch blewyn. Ymgorfforwyd y cyfan o fewn Papurau John Morris. Mae catalog cyflawn o'r holl papurau ar y gweill.